



GARDD COFFÂU'R RHYFEL

Syniadau . . .

Mae grŵp garddio'r pentref 'Doli yn eu Blodau' yn cynnal 'bore rhannu syniadau' ger y Gofeb Rhyfel er mwyn trafod dyfodol yr ardd. Mae'n bosib eich bod chi wedi sylwi, y rheiny ohonoch sy'n cerdded heibio, fod rhai o'r conwydd sy'n weddill yn marw.

Dydyn ni ddim yn siŵr beth ydy'r union reswm dros hyn, efallai oherwydd yr hafau mwyaf sych yn ddiweddar neu rhywfath o falltod, pwy a wŷr. Bu inni gollu rhywfaint o'r tair coeden ar ddeg oedd yn rhan o'r ffin tu cefn er cof am y 13 o ddynion bu inni eu colli yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Hefyd bu i bob un o'r chwe choeden yn y canol, er cof am y chwe dyn o Ddolwyddelan a gollodd eu bywydau yn yr Ail Ryfel Byd, farw.

Mae'r gwair hefyd yn drafferth barhaus, gan fod lleithder y tir yn golygu bod mwy o fwsogl na gwair. Rydym wedi ceisio mynd ati i wella hyn.

Oes gennych chi unrhyw syniadau ar sut hoffech chi i'r ardd edrych? . . .

Ddylen ni blannu mwy o gonwydd yn lle'r conwydd meirw?

Ddylen ni gael gwared ar yr holl gonwydd a phlannu coed eraill yn eu lle, os felly, pa goed?

Beth am gerrig coffáu gyda hanes cryno o'r dynion bu inni eu colli.

Neu efallai rhywbeth i goffáu'r milwyr wnaeth wasanaethu ond goresi.

Hoffem i unrhyw un sydd â diddordeb roi gwybod i'r Cyngor Cymuned a '**Doli yn ei Blodau**' mewn bore anffurfiol ger y Gofeb . . .

Dydd Sadwrn, Medi'r 14eg 10.00yb tan 12.00yp

Te, cacennau a gwybodaeth

Bydd diwrnod garddio yn y Senotaff – dydd Sadwrn, **Tachwedd y 9fed 10.00yb tan 12.00yp** er mwyn ceisio gofalu ei fod yn edrych yn ddeniadol yn barod at Sul y Cofio. Mae croeso i unrhyw un ddod draw i helpu.

Os hoffech chi roi hysbyseb yng nghylchlythyr Dolwyddelan cysylltwch â'r pafiliwn gan ddefnyddio un o'r rhifau neu'r cyfeiriad e-bost ar y dudalen flaen.